

Pigion o'r Gymanfa Gyffredinol

Bob blwyddyn yn y Gymanfa Gyffredinol ceir adroddiadau swmpus gan Adran Eglwys a Chymdeithas, sy'n cynnwys ymateb Eglwys Bresbyteraidd Cymru i nifer o bynciau heriol ein dydd.

Ac eleni, cafwyd cyflwyniad llawn gan Vaughan Salisbury mewn ymateb i ddwy ddogfen drafod a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Yn y gyntaf o ddwy ysgrif cyflwynir ymateb EBC i'r gyntaf o'r dogfennau ymgynghorol hyn. Bydd yr ail ysgrif yn ymddangos yr wythnos nesaf.

Addysg Grefyddol a'r Cwricwlwm i Gymru 2022

Fel y gwyrddoch, mae addysg yng Nghymru yn wynebu cyfnod cyffrous y dyddiau hyn gyda chwricwlwm newydd i Gymru yn cael ei lunio ar gyfer ein hysgolion.

Eleni mae dwy ddogfen ymgynghorol bwysig wedi cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru gyda chyfle i ymateb iddynt. Cyhoeddwyd y ddogfen gyntaf ym mis Ionawr sef, **Cenhadaeth ein Cenedl: Cwricwlwm Gweddnewidiol**.

Argymhellion sydd yma ar gyfer creu fframwaith deddfwriaethol i weithredu'r cwricwlwm newydd. Anfonais fy ymateb ar ran yr enwad at y Llywodraeth erbyn y dyddiad cau, sef 23ain o Fawrth, eleni. (Mae croeso ichi gysylltu â Carys Moseley [carys@ebcpcw.org.uk] os hoffech weld copi o fy sylwadau.)

Un o'r meysydd y mae gennym ni fel enwad ddiddordeb arbennig ynddo yw lle Addysg Grefyddol yng nghwricwlwm y Dyniaethau.

Dyma'n gryno y prif bwyntiau a nodir gan y Llywodraeth am Addysg Grefyddol, rhai sydd yn fy marn i yn galonogol, eraill yn peri rhywfaint o bryder:

1. Braff yw nodi y bydd Addysg Grefyddol yn parhau i fod yn bwnc statudol yn ysgolion y wladwriaeth ledled Cymru;
2. Braff hefyd yw gweld y bydd awdurdodau lleol yn parhau i ddarparu Meysydd Llafur Cytûn Addysg Grefyddol ledled Cymru;
3. Yn gysylltiedig â darparu meysydd llafur cytûn, mae arbenigwyr Addysg Grefyddol wrthi ar hyn o bryd yn llunio yr hyn sy'n cael ei alw yn *Fframwaith Addysg Grefyddol*, i helpu athrawon i weithredu'r cwricwlwm newydd. Bydd modd i CYSAGau awdurdodau lleol fabwysiadu'r Fframwaith yn y dyfodol fel eu Maes Llafur os dewisant wneud hynny. Mae'n bwysig a gwerthfawr cael Fframwaith i gefnogi'r pwnc ond y consyrn sydd gennym yw pwy fydd yn sicrhau y bydd yn cael ei gyflwyno a'i fonitro i'r safon uchaf posib yn yr

ysgolion ac mewn awdurdod lleol? O ystyried mai ond 2 allan o 22 awdurdod lleol yng Nghymru bellach sydd ag ymgynghorydd llawn amser i arwain ar y mater hwn, mae hyn yn achos pryder gwirioneddol. Rydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cyllid digonol i sicrhau bod y cwricwlwm newydd cyffrous hwn yn cael ei gyflwyno mewn modd safonol a bod athrawon yn derbyn yr hyfforddiant angenrheidiol. Hefyd rydym o'r farn y



Vaughan Salisbury

- dylai'r cynllun gael ei fonitro a'i gefnogi'n bwrpasol trwy benodi ymgynghorwyr Addysg Grefyddol llawn amser fyddai'n gweithio yn yr awdurdodau lleol. Mae'n galonogol efallai nodi yma yr awgrymwyd mewn cyfarfod o Gymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd yng Nghonwy ar ddiwedd mis Mehefin, y byddai modd i'r gymdeithas honno wneud cais i Lywodraeth Cymru i benodi hyd at 4 Ymgynghorydd Addysg Grefyddol i Gymru. Os gwreiddir y cynllun hwn, bydd o leiaf yn gam i'r cyfeiriad iawn;
4. Pwynt calonogol arall yw y bwriedir addysgu Addysg Grefyddol i blant oedran meithrin am y tro cyntaf, a hynny er mwyn bod yn gyson gyda phynciau eraill;

5. Ar y llaw arall, bwriedir gwneud gwersi Addysg Grefyddol statudol yn ddewisol i ddysgwyr yn y 6ed dosbarth, h.y. bod y gwersi Addysg Grefyddol yn diflannu oni bai fod yr ysgol yn penderfynu eu cynnwys. Yn yr ymateb a roddais i'r mater hwn, nodais ein bod yn anghytuno gan nodi y dylid manteisio ar bob cyfle i addysgu'r pwnc i bob oedran addysgol a gwneud hynny mewn ffyrdd creadigol a safonol. O ystyried er enghraifft y cyhuddiadau a wneir y dyddiau hyn o ran Islamoffobia a gwrth-Semitaeth yn ein pleidiau gwleidyddol, mae'n bwysig fod myfyrwyr 6ed dosbarth yn cael yr wybodaeth a'r cyfle i drafod yn safonol faterion fel hyn;
6. Gofynnwyd hefyd a ddylid cadw'r hawl i dynnu allan o wersi Addysg Grefyddol. Nodwyd gennym y dylid dileu'r hawl hwn erbyn hyn gan fod Addysg Grefyddol yn cael ei ystyried, ers bron i hanner canrif bellach, yn bwnc addysgol ar gwricwlwm ysgol fel unrhyw bwnc addysgol arall ac y dylai gael ei addysgu mewn modd cwbl broffesiynol;
7. Mater y bydd angen i ni gadw golwg gofalus arno yw bod y Llywodraeth yn bwriadu cynnwys safbwyntiau nad ydynt yn grefyddol fel rhan o gwricwlwm y pwnc Addysg Grefyddol. Mae'n bwysig nodi y bydd newid felly yn y ddeddf ynglŷn â'r mater hwn. Y geiriad a nodir yn y ddogfen yw "dyneiddiaeth". Mae geiriad o'r fath yn codi nifer o gwestiynau eraill megis, pa safbwyntiau yn union fydd yn cael eu haddysgu? I ba oedran yr addysgir y safbwyntiau hyn? Beth fydd cynnwys gwersi o'r fath a beth yw goblygiadau addysgu y safbwyntiau hyn ochr yn ochr ag addysgu y crefyddau sydd eisoes ar y cwricwlwm? Mae'r materion hyn yn bwysig wrth i ni ystyried agenda'r cwricwlwm newydd sydd o'n blaenau ac a fydd yn weithredol o fis Medi 2022.

(I'w barhau)